Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig i Oedolion ag Anghenion Cymhleth a Phobl Hŷn sy'n byw gydag Eiddilwch

## Fframwaith Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Gofal Integredig

OGL © Crown copyright 2025, Welsh Government, WG52633, Digital ISBN 978-1-80633-272-4
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

*'Asesu, trin a nôl ar eich traed'*

# Mynegai


Crynodeb Gweithredol ........................................................................ 2

1.0 Cyflwyniad ........................................................................ 4

2.0 Oedolion ag Anghenion Cymhleth (gan gynnwys Eiddilwch) ................................ 5

3.0 Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ........................................................ 6

3.1 Egwyddorion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig .................................. 7

3.2 Safonau Gweithredu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig .... 10

Atodiad ........................................................................ 14

# Crynodeb Gweithredol

Fel rhan o raglenni cenedlaethol a pholisi, cydnabyddir bellach bod canolbwyntio ar atal a gofal rhagweithiol i oedolion ag anghenion cymhleth a phobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch yn flaenoriaeth bwysig i'w chyflawni er mwyn gwella canlyniadau i'r boblogaeth hon, lleihau anghydraddoldebau a gwneud y system yn gadarnach fel yr amlinellir yn *Cymru Iachach*.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o becyn cymorth ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu helpu i weithio mewn ffordd gydgysylltiedig i ddatblygu System Gofal Cymunedol Integredig. Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'r grŵp hwn o'r boblogaeth.

Mae darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth amserol yn allweddol er mwyn gallu cyflawni canlyniadau gwell drwy ddulliau ataliol ac fel y cyfryw, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol.

Yn achos oedolion ag anghenion cymhleth a phobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch, bydd eu hanghenion amrywiol yn aml yn golygu y bydd angen iddynt gael asesiadau, gofal, cymorth a thriniaeth gydgysylltiedig gan ystod o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sy'n adlewyrchu amgylchiadau unigryw a chyflwr pob unigolyn.

Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014, ac yn benodol y Ddyletswydd i Gydweithredu, yn cydnabod, wrth gefnogi oedolion ag anghenion cymhleth, fod gwaith partneriaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni dyletswyddau ALlau o ran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a sicrhau bod anghenion gofal a chymorth pobl yn cael eu diwallu.

Yn ogystal, mae'r ddyletswydd ansawdd yn golygu bod yn rhaid cynllunio a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ansawdd er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bawb sydd angen gwasanaethau iechyd. Daeth y ddyletswydd i rym yn 2023 o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Cyhoeddwyd canllawiau statudol sy'n disgrifio arferion gorau i helpu cyrff y GIG i roi'r ddyletswydd ansawdd ar waith. Maent yn nodi 12 safon ansawdd iechyd a gofal sy'n cyd-fynd â'r ddyletswydd.

Mae'r fframwaith hwn yn egluro'r trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer y sefydliadau statudol sy'n rhan o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn benodol mewn perthynas â'r grŵp hwn o'r boblogaeth a'u gofalwyr di-dâl. Mae'n dangos bod angen ymateb integredig i ddarparu cymorth pan fydd gan unigolion anghenion brys a chynyddol neu pan fyddant mewn argyfwng.

Gan ddefnyddio sail dystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid a'r *Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sy'n byw gydag Eiddilwch*, mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r ffactorau galluogi a'r cydrannau allweddol y dylid eu hystyried.

Rhagwelir y bydd y canllawiau hyn yn werthfawr i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w helpu i ddylunio a rhoi arferion gorau ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau

posibl i oedolion sy'n byw gydag anghenion cymhleth, pobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch a'u gofalwyr di-dâl.

Ystyrir bod darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i oedolion sy'n byw gydag anghenion cymhleth yn hanfodol er mwyn rheoli eu hanghenion yn rhagweithiol. Yn yr un modd, mae Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth amserol ac effeithiol yn helpu i gydgysylltu gwasanaethau'n ddi-dor er mwyn rheoli anghenion brys ac yn ategu amcanion Pwynt Mynediad Unigol y Byrddau Iechyd. Felly, dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Fframwaith Gofal Rhagweithiol; Fframwaith Pwynt Mynediad Unigol i Fyrddau Iechyd; Fframwaith Ymateb i Gwympiadau

**'Asesu, trin a nôl ar eich traed': Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig ar gyfer Oedolion ag Anghenion Cymhleth / Pobl Hŷn sy'n byw gydag Eiddilwch yng Nghymru**

| Themâu | Gofynion / Ffactorau galluogi |
|---|---|
| Cyd-destun a Datganiad Ansawdd | Pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch: datganiad ansawdd integredig \| LLYW.CYMRU<br><br>Cymru Iachach<br><br>Mwy na geiriau<br><br>Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Model Gofal Sylfaenol i Gymru<br><br>Fframwaith Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal<br><br>Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd<br><br>Fframwaith Gofal Rhagweithiol<br><br>Fframwaith Pwynt Mynediad Unigol i Gymru<br><br>Ffeithlun Gofal Cymunedol Uwch<br><br>'Wardiau rhithwir' Gofal Cymunedol Uwch<br><br>Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaeth Eiddilwch Acíwt ar gyfer Ysbytai Acíwt yng Nghymru<br><br>Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol: Ymhellach, Yn Gyflymach<br><br>Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: llawlyfr polisi ar gyfer 2021 i 2026 \| LLYW.CYMRU<br><br>National_Community_Nursing_Specification_v1_Jan_23.pdf<br><br>Llyfryn Her 50 Diwrnod: |

| | |
|---|---|
| | 2024 50 Day<br>Integrated Care Winte |
| Egwyddorion Craidd Cyffredinol o ran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig | - Egwyddorion Rhanbarthol<br>- Egwyddorion Rheoli Gweithredol |
| Safonau Gweithredu ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig i Oedolion ag Anghenion Cymhleth | - Seilwaith<br>- Asesu<br>- Trin<br>- Nôl ar eich Traed |

# 1.0 Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hwn yn cyd-fynd â *Cymru Iachach* a'i weledigaeth ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig sy'n helpu i ddarparu systemau gofal seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i ddiwallu angen penodol ymhlith y boblogaeth, gan wella eu canlyniadau llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r fframwaith yn ategu Model Gofal Sylfaenol Cymru a chyfrifoldebau cysylltiedig Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan (PCPG) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'n rhoi canllaw pendant i gynllunwyr, comisiynwyr ac arweinwyr gweithredol o fewn ALlau a BIau ar yr egwyddorion a'r safonau y dylid eu hystyried wrth ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth effeithlon ac effeithiol yn benodol ar gyfer oedolion sy'n byw gyda chymhlethdod, cydafiachedd a / neu eiddilwch.

Nid yw'r fframwaith hwn yn tanseilio trefniadau presennol ALlau i ddiwallu anghenion eu dinasyddion ym maes Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth[1]. Er mwyn diwallu anghenion cymhleth ac amrywiol y boblogaeth, mae'n cydnabod bod yn rhaid i sefydliadau partner gydweithio i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mewn ffordd gydgysylltiedig ac integredig. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ddiwallu anghenion brys ac anghenion cynyddol sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r unigolyn a chynaliadwyedd y system[2].

[1] Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor i Gymru the-information-and-advice-quality-framework-for-wales.pdf

Sgyrsiau gwell GCC Gwybodaeth, cyngor a chymorth o dan y… | Gofal Cymdeithasol Cymru

[2] Dyletswydd i Gydweithredu

# 2.0 Oedolion ag Anghenion Cymhleth (gan gynnwys Eiddilwch)

Cafodd Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sy'n byw gydag Eiddilwch ei ddatblygu gan Grŵp Cyfeirio Arbenigol o randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2024.  Mae'r Datganiad yn amlinellu nodweddion ansawdd system eiddilwch ond gellir ei gymhwyso yn yr un modd i oedolion sy'n byw gydag anghenion cymhleth ac amlafiachedd.

Mae'r Datganiad yn disgrifio mai'r hyn sy'n bwysig i'r boblogaeth hon yw byw mor dda ac annibynnol â phosibl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain ac, ar ddiwedd eu hoes, gael cefnogaeth i farw yn y lle o'u dewis.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Datganiad yn cefnogi dull gofal a rheoli ataliol a rhagweithiol.  Caiff pwysigrwydd dull gweithredu o'r fath ei nodi yn y **Datganiad o Ddiben Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2023 ac yng Nghanllawiau Arfer Gorau'r Her 50 Diwrnod (Hydref, 2024).

I grynhoi, mae'r Datganiad o Ddiben yn dweud bod y system iechyd a gofal cymdeithasol bresennol yn tueddu i reoli argyfyngau mewn ffordd adweithiol. Mae'r boblogaeth hon yn aml yn dod i gysylltiad ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gofal sylfaenol gyda dirywiad gweithredol a / neu wybyddol sy'n aml yn newydd ac yn sydyn.

Mae anghenion sydyn a chynyddol ar gyfer y grŵp hwn o'r boblogaeth fel arfer yn gysylltiedig â newid ffisiolegol, cymdeithasol neu seicolegol fel haint, colli anwylyd neu newid amgylchedd. Gwyddom fod sefyllfaoedd fel hyn yn arwain at lefel uwch o straen a phryder ac yn aml at gyswllt â darparwyr gofal brys a gofal mewn argyfwng fel meddygon teulu y tu allan i oriau, 111, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Adrannau Achosion Brys. Cydnabyddir yn gyffredinol y gellid bod wedi atal tua 20 - 30% o ymweliadau ag adrannau achosion brys a derbyniadau dilynol i'r ysbyty drwy adnabod a rheoli argyfyngau a / neu straen ymhlith gofalwyr[3].

Gall system adweithiol, ac yn enwedig gyfnodau yn yr ysbyty, achosi mwy o ddirywiad a cholli annibyniaeth o ganlyniad i bethau fel haint a gafwyd yn yr ysbyty, colli hyder, a cholli más y cyhyrau (y cyfeirir ato weithiau fel datgyflyru).

Mae'r garfan hon yn aml yn profi pyliau sydyn o ddirywiad ac mae anghenion amrywiol a chynyddol yn adlewyrchu'r cyfuniad cymhleth o ffactorau bioseicogymdeithasol. Ar gam cynharach, mae dulliau ataliol gan gynnwys dull cydgysylltiedig o ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, yn helpu i ragatal a rheoli'r anghenion hynny'n rhagweithiol.

[3] NHS England » Delivery plan for recovering urgent and emergency care services – Ionawr 2023

## 3.0 Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnig gwasanaeth sy'n rhoi'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl (gan gynnwys gofalwyr) i reoli eu bywydau o ddydd i ddydd a sicrhau'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae dyletswydd ar Fyrddau Iechyd i roi gwybodaeth i awdurdodau lleol am y gofal a'r cymorth sydd ar gael ganddynt yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.
Mae dyletswydd i gydweithredu hefyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth, fel oedolion ag anghenion cymhleth.


Er mwyn diwallu anghenion oedolion ag anghenion cymhleth a phobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch o ran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, mae'n rhaid i bartneriaid gydweithio i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig a all ymateb yn y ffordd orau i anghenion cymhleth y garfan hon a sicrhau'r canlyniadau gorau i'r unigolyn.

Gellir disgrifio **Model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig** fel *integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn ddi-dor i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth amserol i boblogaeth ddiffiniedig o fewn ôl troed daearyddol penodol ac sy'n rhoi'r dinesydd wrth wraidd popeth ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddo.*

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y bydd angen i bob ALl a'i bartneriaid ddylunio a darparu ei Wybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig mewn ffordd sy'n adlewyrchu ei boblogaeth a'i gyd-destun unigryw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dull gweithredu gweddol gyson ledled Cymru, rhaid i bob model gyd-fynd â'r egwyddorion a'r safonau a nodir isod.

Mae hefyd yn cydnabod bod natur olion traed rhanbarthol gwahanol yn golygu bod yn rhaid cysoni trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig â threfniadau eraill fel Pwyntiau Mynediad Unigol a arweinir gan Fyrddau Iechyd sy'n cynnig asesiadau clinigol ar gyfer anghenion gofal brys. Byddem yn disgwyl i ALlau weithio gyda Byrddau Iechyd ar lefel ranbarthol i sicrhau system integredig a chydgysylltiedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn gyffredinol, dylai Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer y grŵp hwn o'r boblogaeth ddarparu ystod o adnoddau i gefnogi camau atal, rheoli anghenion brys a newydd ac anghenion gofal hirdymor (gweler Ffigur 1 isod).




***Ffigur 1.***

- **Gwybodaeth** sy'n galluogi pobl i heneiddio'n iach (cynhwysiant cymunedol, tai a phenderfynyddion ehangach iechyd i'r rhai sy'n iach ac nad oes angen darpariaeth statudol arnynt ar wahân i ambell ymyriad gan ofal sylfaenol ***(Atal)***.
- **Cyngor** sy'n galluogi pobl i gael mynediad (cyfeirio) at ymyriadau hunanofal i reoli anghenion llai cymhleth ***(Atal)***.
- **Cymorth**** Y maes hwn o'r ddarpariaeth sydd fwyaf tebygol o alw am ddull gweithredu integredig i ddiwallu anghenion a dyma'r prif ryngwyneb â darpariaeth Pwynt Cyswllt Unigol y Bwrdd Iechyd. Yn yr achos hwn mae Cymorth yn ymateb i'r canlynol:
    - Dirywiad disgwyliedig sy'n gysylltiedig â chymhlethdodau hysbys sy'n gynyddol eu natur yn gyffredinol **(anghenion gofal a chymorth hirdymor)**
    - Anghenion cynyddol / dirywiad sydyn **(anghenion brys neu newydd)** sy'n gysylltiedig â natur amrywiol eu cyflwr, anaf neu salwch, a darparu adolygiad ar unwaith, ymateb priodol a gofal a chymorth cofleidiol a thriniaeth sy'n galluogi'r unigolyn i wella a sefyll ar ei draed ei hun unwaith eto, gan gynnwys gwasanaethau gofal cymunedol uwch.

## 3.1 Egwyddorion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig

**Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol:**

- Mae arweinwyr ALlau a Byrddau Iechyd yn meddwl, yn gweithredu, yn ymddwyn ac yn gwneud penderfyniadau fel un, gan alinio asedau ac adnoddau perthnasol i gefnogi pobl yn well. Mae hyn yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig fel rhan hanfodol o wella profiad unigolyn o'r system.
- Mae arweinwyr ALlau a Byrddau Iechyd yn galluogi eu sefydliadau i alinio eu hadnoddau er mwyn integreiddio eu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

integredig o fewn eu system h.y. hwyluso un dull cydgysylltiedig ar lefel ranbarthol, ond darparu ar lefel clwstwr cyfan / ALl

- Mae arweinwyr ALlau a Byrddau Iechyd yn datblygu eu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig mewn ffordd sy'n sicrhau canlyniadau cyfartal a'r canlyniadau gorau posibl i'r boblogaeth a gwerth a chynaliadwyedd i'r system.
- Mae arweinwyr ALlau a Byrddau Iechyd yn rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau bod Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig yn sicrhau canlyniadau diogel, effeithiol ac effeithlon ar gyfer y system, ei sefydliadau a'r boblogaeth.
- Mae arweinwyr ALlau a Byrddau Iechyd yn datblygu dull gweithredu ar y cyd mewn perthynas â data Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig a ffynonellau data eraill, er mwyn llywio gwaith asesu anghenion, cynllunio, comisiynu a rheoli galw / capasiti ar y cyd sy'n sicrhau capasiti a gallu digonol o fewn y gweithlu
- Mae arweinwyr ALlau a Byrddau Iechyd yn hyrwyddo Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig yn eang i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Bydd staff yn meddu ar y lefel a'r cydbwysedd cywir o sgiliau a bydd modd iddynt fanteisio ar arbenigedd proffesiynol

**Arweinwyr a Rheolwyr Gwasanaethau Integredig:**

- Canolbwyntio ar *beth sy'n bwysig* i'r unigolyn, a ddylai gael ei lunio ar y cyd
- Mae cydberthnasau ystyrlon a llawn ymddiriedaeth yn cael eu datblygu a'u meithrin rhwng gweithwyr proffesiynol, yr unigolyn, ei ofalwyr anffurfiol a'i deulu
- Mabwysiadu dull gweithredu *dywedwch wrthym unwaith* a gwneud i bob cyswllt gyfrif
- Dileu gwastraff ac achosion o ddyblygu ymdrechion
- Arweinwyr tosturiol, sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn lleihau gwrthdaro er mwyn sicrhau atebolrwydd ar y cyd dros y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig
- Adnoddau, gan gynnwys staff a chyllidebau, yn cael eu rheoli drwy brosesau llywodraethu effeithiol
- Mabwysiadu dull cytbwys o ymdrin â risg a gwneud penderfyniadau amserol
- Ei gwneud yn bosibl i ystyried Gofal a Alluogir gan Dechnoleg a'i fanteision (Fideogynadledda, Teleofal, Teleiechyd ac ati) fel mater o drefn
- Sicrhau bod anghenion gwybyddol pobl yn cael eu hasesu'n gyfannol a'u hystyried yn ogystal ag ymateb i amhariadau ac anghenion iechyd corfforol
- Galluogi dull gweithredu ‘Llaw gynnes ymlaen - Llaw gynnes i ffwrdd’, gan leihau oedi a gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau a meini prawf, a sicrhau bod pawb yn cael yr wybodaeth angenrheidiol
- Mabwysiadu dull rhagweithiol o reoli ac adolygu gofal
- Sicrhau mynediad at wasanaethau arbenigol y mae dyletswydd arnynt i weithredu o fewn y model hwn

- Sicrhau parhad gofal, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau a phrosesau rheoli gofal
- Trefniadau llywodraethu clinigol clir ar waith i sicrhau ymarfer diogel a pharhad gofal
- Cynnig ymyriadau sy'n gymesur ag anghenion yr unigolyn a ddarperir gan y gweithiwr gofal / darparwr gofal mwyaf priodol
- Galluogi dull gweithredu *'one person up the garden path',* gan helpu staff i ddatblygu sgiliau ychwanegol a chymylu ffiniau proffesiynol yn ddiogel i gynyddu capasiti a gwella profiad yr unigolyn

## 3.2 Safonau Gweithredu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Integredig

**Adran A: Atal**

**Diffiniad**
Darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol i gefnogi llesiant parhaus ac atal anghenion brys a newydd

**Sefydliad Cyfrifol**

Awdurdod Lleol

**Oriau Gweithredu**

Fel arfer, 0900 – 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener ond y sefydliad cyfrifol fydd yn penderfynu ar hyn.

**Partneriaid / Rhanddeiliaid**

- Bwrdd Iechyd (Dyletswydd Rhan 2 i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau i'r ALl)
- Presgripsiynwyr Cymdeithasol
- Grwpiau Cymunedol
- Iechyd y Cyhoedd
- Contractwyr Gofal Sylfaenol
- Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan
- Darparwyr Trydydd Sector
- Adrannau Awdurdodau Lleol
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru / 111 (e.e Gwasgu 0, Gwasgu 1 ac ati) / Pwynt Mynediad Unigol y Bwrdd Iechyd

**Mesurau Canlyniadau**

Canlyniadau Llesiant (drwy adroddiadau'r Gronfa Integredig Rhanbarthol)

**<u>Adran B: Anghenion Gofal Brys ac Anghenion Gofal Newydd</u>**

## Diffiniad:

Gwasanaethau gofal cymunedol cydgysylltiedig, ymatebol, integredig sydd wedi'u cynllunio'n dda mewn 'cymdogaeth' ddiffiniedig fel ôl troed ALl sy'n gwbl gyson â Phwynt Mynediad Unigol y Bwrdd Iechyd.

Mae model Gwasanaeth, Cyngor a Chymorth integredig yn galluogi'r canlynol:

- Rheoli llwyth achosion cymhleth diffiniedig a'u Cynlluniau Gofal ar y Dyfodol yn rhagweithiol
- Hwyluso asesiadau amlbroffesiynol cydamserol uwch o anghenion a phenderfyniadau dilynol ynghylch cynllunio a darparu gofal a thriniaeth.
- Sicrhau bod yr ymyriadau cywir yn cael eu darparu gan y gweithwyr proffesiynol cywir ar yr adeg gywir er mwyn lleihau'r risg o ddirywiad ac aciwtedd pellach gan helpu'r unigolyn i adfer a lleihau'r angen am ofal hirdymor. Gallai ymyriadau gynnwys:
    - Cyngor a chymorth hunanofal (yn cynnwys cyfarpar ac addasiadau)
    - Ymateb gofal brys wyneb yn wyneb gan gynnwys ymateb i gwympiadau
    - Mynediad cyflym at ddiagnosteg o fewn 60 munud
    - Darpariaeth gofal brys (ailalluogi, Gofal Cymunedol Uwch, rhaglenni a arweinir gan therapi, technoleg gynorthwyol)

**Sefydliad Cyfrifol**

Mae'r ALl a'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol ar y cyd am weithredu'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig (mae Rhannau 2, 3, 4 a 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gymwys mewn perthynas â diwallu anghenion oedolion ag anghenion cymhleth / eiddilwch)

**Safonau Gweithredol Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth integredig 'Asesu, Trin a Nôl ar eich Traed'**

**Y seilwaith:**

- Yn weithredol 7 diwrnod yr wythnos rhwng 0700 – 2200
- Cefnogir gan seilwaith gweinyddol a busnes
- Mynediad agored, hawdd drwy 'hyb' integredig (drwy gydleoli / Sianel Teams agored)
- Mynediad at ystod briodol o systemau digidol i gael gafael ar gofnodion gofal (ar sail gymesur)
- Yn cael atgyfeiriadau gan y canlynol:
    - Pobl sy'n hysbys i'r 'llwyth achosion cymhleth' pan fo pryder
    - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (adran atal) i bobl nad ydynt yn hysbys i'r llwyth achosion ond sy'n profi dirywiad annisgwyl sydyn neu anghenion brys newydd / straen gofalwyr

    - Gweithwyr iechyd a gofal cymunedol proffesiynol gan gynnwys darparwyr gofal, cartrefi gofal ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
    - Timau Rhyddhau o'r Ysbyty a / neu'n darparu mewngymorth i'r hybiau rhyddhau
    - Canolfannau Derbyn Larymau (Ymateb i Gwympiadau)
    - Pwynt Mynediad Unigol y Bwrdd Iechyd
    - Hybiau Cymorth Clinigol '111' a meddygon teulu y tu allan i oriau

**'Asesu'**

- Yn hwyluso <u>asesiad amlbroffesiynol cydamserol uwch a phenderfyniadau</u> ynghylch gofal, cymorth a thriniaeth a mabwysiadu model Asesydd Dibynadwy lle bo hynny'n briodol.
- Fan lleiaf, dylai tîm amlbroffesiynol gynnwys y canlynol: Gweithiwr Cymdeithasol, Ffisiotherapydd, Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Gymunedol, Ymarferydd Clinigol Uwch. Byddai'r tîm hefyd yn cael budd o'r canlynol:
    - Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd e.e. Therapyddion Lleferydd ac Iaith / Deieteg / Podiatrydd a Gweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd Proffesiynol
    - Fferyllydd
    - Gweithwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy / Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl
    - Asesiad Meddygol
- Alinio â Chanolfannau Derbyn Larymau TEC
- Hwyluso mynediad cyflym at asesiadau wyneb yn wyneb lle bo angen o fewn 1 - 2 awr (gan gynnwys cwympiadau a rhybuddion TEC ar gyfer achosion o dorri paramedrau gofal / arwyddion bywyd)
- Mynediad cyflym at ddiagnosteg o fewn 60 munud (gan gynnwys Unedau Asesu Eiddilwch a SDEC / SDUC)
- Mynediad at ofal lliniarol cenedlaethol (111 Gwasgu 0), Dilysu Marwolaeth Ddisgwyliedig a llwybrau Ar ôl Marwolaeth / Profedigaeth

**'Trin' (Pan fo gan yr unigolyn anghenion meddygol acíwt sy'n ddwys ac yn amrywiol)**

- Mynediad at ymateb cenedlaethol i gwympiadau, llwybrau anadlol a chathetr
- Mynediad cyflym at Ofal Cymunedol Uwch Lefel 4 o fewn 2 awr a darpariaeth gofal a arweinir gan glinigwyr hyd nes bod anghenion yr unigolyn yn llai acíwt, fel arfer 48 awr o leiaf ond gall gymryd mwy o amser.
    - Ymyriadau clinigol yng nghartref yr unigolyn e.e. meddyginiaeth fewnwythiennol, hydradu mewnwythiennol / isgroenol, lleddfu poen
    - Angen cynnwys gofal nyrsio cofleidiol gan gynnwys arsylwi ar arwyddion bywyd a gofal personol
- Hwyluso apwyntiadau neu asesiadau a drefnwyd gan gynnwys derbyniadau meddygol acíwt i'r ysbyty

**'Nôl ar eich traed'**

- Mynediad at ofal ‘camu i fyny’ neu ‘gamu i lawr’ cofleidiol amlbroffesiynol Lefel 3 o fewn 48 awr e.e. ailalluogi (gartref neu mewn cyfleuster â gwelyau), rhaglenni a arweinir gan therapi am gyfnod o hyd at 6 wythnos.
- Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol a / neu adolygu'r Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol

## Adran C. Gofal a Chymorth Hirdymor Parhaus

**Diffiniad**

Darparu gofal a chymorth hirdymor parhaus ar ôl asesiad ffurfiol o gymhwysedd i gael gofal a chymorth gan gynnwys: Gofal yn y Cartref, Gofal Preswyl, Gofal Nyrsio, Gwasanaethau Henoed Eiddil eu Meddwl

**Sefydliad(au) Cyfrifol**
Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd

**Oriau Gweithredu**
Dydd Llun i ddydd Gwener 0900 – 1700

# Atodiad

**<u>Canlyniadau a Mesurau Proses Drafft ar gyfer Anghenion Brys a Newydd</u>**

Ar adeg cyhoeddi, mae canlyniadau a mesurau proses pendant yn cael eu hystyried yn genedlaethol gan Grŵp Arwain y System Gofal Cymunedol Integredig. Mae'r canlynol wedi cael eu cynnig ac rydym wedi eu cynnwys er gwybodaeth.

**Canlyniad Poblogaeth**

- Bydd 60% yn aros neu'n dychwelyd i'r gymuned o bob ymyriad gan gynnwys gwelyau camu i fyny / camu i lawr. Efallai na fydd angen gofal a chymorth hirdymor parhaus arnynt ond gallai fod angen eu monitro fel rhan o lwyth achosion nyrs ardal.
- Efallai y bydd angen derbyn 10% i'r ysbyty
- Bydd gan 30% anghenion gofal a chymorth hirdymor parhaus (e.e. gofal cymdeithasol, Gofal Nyrsio a Ariennir / Gofal Iechyd Parhaus yn y cartref neu mewn lleoliad preswyl / nyrsio).

**Mesurau Canlyniadau'r System**

- Nifer y bobl sy'n cael gofal a chymorth hirdymor
- Nifer y bobl sy'n aros am ofal a chymorth hirdymor
- Nifer y derbyniadau brys > 75 oed
- Nifer y bobl a dderbynnir i'r ysbyty fel argyfwng gyda hyd arhosiad > 21 diwrnod

**Mesurau Gwella Gwasanaeth**

- Nifer yr atgyfeiriadau at Ofal Cymunedol Uwch
- Nifer yr atgyfeiriadau at gymorth Ailalluogi
- Capasiti Nyrsio Ardal (7/7) (ymweliadau a nifer y bobl a welir)